



## Cod Ymddygiad Proffesiynol

### 1. Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

- 1.1 Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru - CCC Cyf. - yw'r corff proffesiynol cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg/Saesneg, yn gyfieithwyr testun ac yn gyfieithwyr ar y pryd.

Nod CCC Cyf. yw sicrhau'r safonau proffesiynol uchaf mewn cyfieithu Cymraeg/Saesneg trwy fod yn gorff achredu a meincnodi safonau cyfieithu proffesiynol; yn ogystal â sicrhau fod y diwydiant cyfieithu'n datblygu'n effeithiol fel rhan o'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithrwydd.

Mae gan CCC Cyf. dair lefel o aelodaeth broffesiynol: Cyflawn a Sylfaenol ym maes cyfieithu testun ac aelodaeth Cyfieithu ar y Pryd. Rhaid llwyddo yn nhrefn arholi CCC Cyf. i ennill aelodaeth ohoni.

Mae CCC Cyf. yn gwmni cyfyngedig drwy warant - rhif 4741023. Fe'i rheolir gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr a etholir o blith yr aelodau.

- 1.2 Mae'r Cod Ymddygiad hwn yn gymwys i holl aelodau CCC Cyf. ac yn ymwneud â chyfieithu Cymraeg/Saesneg yn unig ac nid ag unrhyw gyfuniad arall o ieithoedd.

Nid yw CCC Cyf. yn cefnogi unrhyw waith cyfieithu a wneir gan unrhyw un nad yw'n aelod o CCC Cyf. neu gorff cydnabyddedig proffesiynol arall sy'n cydnabod cyfieithu Cymraeg/Saesneg.

### 2. Diffiniadau

Ac eithrio lle bo'r cynnwys yn mynnu fel arall, dyma ystyr y geiriau isod yn y Cod hwn:

**Aelod** aelod o CCC Cyf., sef unrhyw un sydd wedi'i dderbyn yn aelod Cyflawn, aelod Sylfaenol neu'n aelod Cyfieithu ar y Pryd o CCC Cyf., fel y gwêl Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn unig yn dda; ac sydd wedi talu ei dâl aelodaeth.

**Cyfieithydd** oni nodir yn benodol, mae cyfieithydd yn ymwneud â thestun ysgrifenedig a chyfieithydd ar y pryd yn ymwneud â'r gair llafar.

**Cleient** unrhyw unigolyn neu gorff y mae aelod yn derbyn gwaith oddi wrtho.

**Gwaith** gwaith cyfieithu, gwaith cyfieithu ar y pryd neu waith dysgu cyfieithu, neu weithgareddau eraill sy'n gysylltiedig â hwy.

**Erthyglau** Erthyglau Cymdeithasiad CCC Cyf. sydd mewn grym ar y pryd.

Bydd ffurfiau unigol geiriau yn cynnwys y lluosog ac fel arall. Bydd geiriau sy'n cyfleu ffurf wrywaidd hefyd yn cynnwys y ffurf fenywaidd.

### **3. Yr egwyddor sylfaenol**

- 3.1** Mae'r Cod hwn yn gosod y safon broffesiynol a'r safon o onestrwydd y mae'n rhaid i bob aelod lynu wrthynt yn ei waith fel cyfieithydd.
- 3.2** Caiff pob aelod ei rwymo gan y Cod hwn.
- 3.3** Rhaid i aelod weithredu'n unol â'r safon y mae CCC Cyf., fel corff proffesiynol, yn ei harddel a gweithredu'n unol â buddiannau CCC Cyf., ei haelodau neu'r proffesiwn, ac osgoi dwyn anfri arnynt. Rhaid i bob aelod, yn arbennig, barchu gallu, enw da neu anrhydedd unrhyw aelod o CCC Cyf. neu o gorff proffesiynol tebyg, ac osgoi ei gollfarnu.
- 3.4** Yn yr un modd, rhaid i aelod wasanaethu ei gwsmeriaid yn y modd gorau posib a chynhyrchu gwaith o'r safon uchaf ar bob achlysur.
- 3.5** Mae'r Cod hwn yn cydnabod cyfansoddiad CCC Cyf. a deddfau cyfreithiol Cymru, y Deyrnas Unedig ac Ewrop ac yn ddarostyngedig iddynt.

### **4. Safonau ymddygiad proffesiynol**

- 4.1** Drwy dderbyn gwaith mae'r aelod yn ymgymryd ag ymrwymiad moesol i weithio arno'n briodol o broffesiynol.
- 4.2** Rhaid i aelod gynnal safonau gwaith sydd bob amser gyfuwch, o leiaf, â'r safonau y mae angen eu cyrraedd i sicrhau aelodaeth o CCC Cyf.
- 4.3** Ni ddylai aelod dderbyn gwaith oni bai ei fod yn gymwys i'w wneud ac oni bai bod ganddo'r offer cyfieithu penodol a amlinellwyd gan y cleient ym manyleb y dasg.
- 4.4** Yn amodol ar adran 8 isod, rhaid i aelod wrthod gwaith y gŵyr ei fod y tu hwnt i'w gymhwysedd ieithyddol neu ei wybodaeth arbenigol onid yw'r gwaith i'w is-gontractio i gyfieithydd arall sydd â'r cymhwysedd angenrheidiol ac, os felly, bydd darpariaethau'r Cod hwn, a chymal 7.6 isod yn arbennig, yn gymwys.
- 4.5** Rhaid i aelod ymatal rhag unrhyw weithred sy'n debyg o ddwyn anfri ar CCC Cyf. neu ar y proffesiwn neu sy'n debyg o osod cydweithwyr o dan anfantais, er enghraifft llên-ladrad, is-gontractio'n llechwraidd a gosod prisiau rhy isel.
- 4.6** Yn amodol ar adrannau 7 ac 8 isod, os caiff aelod gais i gyfieithu i iaith heblaw'r iaith neu'r ieithoedd y mae wedi llwyddo ynddi neu ynddynt yn arholiadau CCC Cyf. (fel y dangosir ar ei dystysgrif aelodaeth flynyddol), rhaid iddo hysbysu'r cwsmer nad oes ganddo gymhwyster gan CCC Cyf. i gyfieithu i'r iaith honno nac ohoni.
- 4.7** Yn amodol ar adran 8 isod, rhaid i'r aelod bob amser sicrhau bod ei gyfieithiadau'n ffyddlon o ran ystyr a chywair i'r gwreiddiol, a'u bod yn gwbl

rydd rhag cam-ddehongliad, barn neu ddylanwad personol yr aelod, onid yw wedi cael cyfarwyddyd penodol gan y cleient. Rhaid gofyn am gymeradwyaeth y cleient cyn ychwanegu neu ddileu unrhyw beth a fyddai'n creu newid sylweddol yn y testun gwreiddiol. Ym mhob achos lle gwneir newidiadau, gorau oll os bydd y cyfarwyddyd hwnnw yn ysgrifenedig.

- 4.8 Bydd yr aelod yn gwbl gyfrifol ac atebol am y gwaith a dderbynia oddi wrth ei gleientiaid, p'un a gaiff y gwaith hwnnw ei is-gontractio neu beidio.
- 4.9 Dylai aelod dynnu sylw ei gleient at unrhyw fater y mae'n credu ei fod o bwys o ran amwysedd, gwall, camgymeriad, bwlch neu iaith niwlog yn y deunydd y mae'n gweithio arno.

#### **4.10 Datblygu proffesiynol parhaus**

Dylai aelod fanteisio ar gyfleoedd perthnasol i wella a datblygu'r doniau personol hynny sy'n allweddol i sicrhau y gall gynnig gwaith o'r safon uchaf trwy ymgymryd â gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus. Dylai roi sylw i wella ac uwchraddio'i sgiliau ieithyddol, ei wybodaeth gyffredinol, ac unrhyw sgiliau a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'w waith.

### **5. Cyd-gynorthwyo**

- 5.1 Dylai aelodau gynorthwyo'i gilydd ym mhob ffordd ymarferol ac ymddwyn yn deyrngar at eu cyd-aelodau ac CCC Cyf.
- 5.2 Os gofynnir i aelod gyflawni gwaith na all mo'i dderbyn heb dorri darpariaethau'r Cod hwn neu na all ei gwblhau erbyn y dyddiad sy'n ofynnol, dylai geisio cyflwyno'r cleient i aelod arall sydd â'r sgiliau angenrheidiol.

### **6. Cyfrinachedd**

- 6.1 Rhaid i aelod bob amser gadw'n gyfrinachol unrhyw wybodaeth a gaiff wrth wneud ei waith, a pheidio â rhoi'r wybodaeth honno i neb arall heb ganiatâd. Rhaid iddo hefyd fynnu bod pawb sy'n ei helpu i wneud gwaith yn ymrwymo i'r Cod hwn, yn amodol ar gymal 7.3 isod, ac eithrio pan fydd datgelu'r wybodaeth yn ofynnol o dan y gyfraith neu wedi'i awdurdodi o dan y gyfraith.
- 6.2 Rhaid i aelod beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol am aelod arall ac eithrio pan fydd datgelu'r wybodaeth yn ofynnol o dan y gyfraith neu wedi'i awdurdodi o dan y gyfraith.
- 6.3 Rhaid i aelod beidio â sicrhau mantais o unrhyw fath drwy ddefnyddio gwybodaeth freintiedig a gafwyd wrth gyfieithu. Yn benodol, rhaid peidio ag ymyrryd yng nghysylltiadau busnes cleient â'i gwsmeriaid.
- 6.4 Rhaid i aelod gyflawni'n gwbl ddiuedd bob darn o waith a ymddiriedwyd iddo a datgelu unrhyw fudd busnes, budd ariannol neu fudd arall a allai amharu ar ei allu i weithredu'n ddiuedd.

### **7. Trefniadau cytundebol**

- 7.1** Wrth dderbyn gwaith ar ôl cytuno ar y telerau, rhaid i aelod beidio ag amrywio'r telerau hynny heb roi rheswm digonol a heb roi'r cyfnod hwyaf posibl o rybudd i'r cleient, ac eithrio mewn achosion o *force majeure*.
- 7.2** Os bydd aelod yn derbyn gwaith oddi wrth gleient sy'n gweithredu ar ran cwsmer, ni ddylai gysylltu'n uniongyrchol â chwsmer y cleient heb i'r cleient gytuno'n benodol i hynny. Os sicrheir y cytundeb hwnnw, rhaid iddo beidio â gwneud dim gosodiad na datganiad a all fod yn niweidiol i fusnes y cleient neu ei gwsmer.
- 7.3** Rhaid i aelod beidio â derbyn gwaith yn groes i ddarpariaethau'r Cod hwn, ac eithrio o dan yr amgylchiadau a bennir yn adran 8. Rhaid iddo beidio â chamgyfieithu na chamddehongli'n fwriadol, hyd yn oed os cyfarwyddir ef i wneud hynny, a rhaid iddo beidio â derbyn gwaith a all, yn ei farn ef, hyrwyddo unrhyw weithgarwch anghyfreithlon neu droseddol y bydd dyletswydd arno i'w ddatgelu i'r awdurdodau priodol.
- 7.4** Rhaid i aelod sy'n weithiwr cyflog i'r cleient, neu wedi'i rwymo gan gontract gwasanaethu, wneud hyn:
- i) rhoi gwasanaeth teyrngar, parod a diwyd i'w gyflogwr;
  - ii) ymdrin yn onest ag eiddo'i gyflogwr;
  - iii) peidio â derbyn dim gwaith sy'n torri telerau ei gontract cyflogaeth;
  - iv) peidio â derbyn dim llwgrwobrwy, comisiwn cyfrinachol nac anogaeth lwgr.
- 7.5** Rhaid i aelod sy'n gweithredu fel cleient wneud hyn:
- i) pryd bynnag y bo modd, rhoi blaenoriaeth i aelodau CCC Cyf.;
  - ii) annog a helpu'r rhai nad ydynt yn aelodau, ac sydd wedi'u cyflogi mewn unrhyw ffordd, i wella'u sgiliau, a hefyd, yn achos cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd, i sefyll yr arholiadau i ymaelodi â CCC Cyf.;
  - iii) sicrhau ei fod ef a'i weithwyr cyflog a'u hisgontractwyr yn parchu holl gymalau perthnasol y Cod hwn, yn enwedig cymal 4.9 uchod, a rhaid iddynt gymhwyso'r gweithdrefnau hysbys i wirio'r gwaith nad ydynt hwy eu hunain wedi'i wneud.
- 7.6** Rhaid i aelod beidio ag is-gontractio gwaith nac anfon rhywun yn ei le heb i'r cleient wybod a chytuno i hynny ymlaen llaw, a rhaid diffinio unrhyw newid yn y cyfrifoldebau yn ysgrifenedig. Wrth is-gontractio'r gwaith, rhaid peidio â chadw cyfran afresymol o'r ffi yn ôl.
- 7.7** Rhaid i aelod sy'n gweithredu fel cwmni neu asiantaeth ddatgelu'r ffaith honno i unrhyw un y mae'n is-gontractio gwaith iddo. Rhaid iddo sicrhau bod y sawl sy'n gwneud gwaith a ddosbarthwyd yn aelod o CCC Cyf. ac yn ddarostyngedig i'r Cod hwn.

## **8. Eithriad**

Os bydd cleient yn mynnu bod aelod yn gwneud gwaith o dan amgylchiadau sy'n groes i'r darpariaethau yng nghymalau 4.4, 4.6 neu 5.2 uchod, fe gaiff yr aelod, fel eithriad, dderbyn y gwaith ar yr amod bob tro:

- i) bod yr aelod wedi cymryd y camau priodol, a gorau oll os gwna hynny

drwy gyflwyno'i bryderon yn ysgrifenedig, i sicrhau bod y cleient yn gwbl ymwybodol o'r risgiau perthnasol;

a/neu

ii) bod yr aelod wedi'i fodloni'i hun bod y cleient yn wirioneddol ymwybodol o'r risgiau perthnasol;

a/neu

iii) bod y cleient wedi cytuno'n benodol i dderbyn y risgiau perthnasol, a gorau oll os gwna hynny yn ysgrifenedig;

a/neu

iv) bod hysbysiad rhybuddio ynghlwm wrth y gwaith neu'n cael ei gyflwyno gydag ef.

## **9. Hysbysebu a datganiadau**

**9.1** Rhaid i aelod beidio â thorri unrhyw safon hysbysebu gydnabyddedig na honni dim na all ei gyfiawnhau. Dim ond ar ôl sicrhau cydsyniad y cleient ymlaen llaw y caniateir iddo grybwyll cleient fel canolwr.

**9.2** Rhaid i aelod ymatal rhag cystadlu'n annheg (e.e. gosod prisiau rhy isel) a rhag ymosod yn gyhoeddus ar enw da a chymhwysedd aelodau eraill. Rhaid i unrhyw feirniadaeth ar waith aelod arall gael ei mynegi i'r person o dan sylw yn gyntaf a hynny mor wrthrychol ag y bo modd.

**9.3** Os bydd aelod yn gwneud datganiad cyhoeddus ac yn rhoi cyfweiliad i'r cyfryngau, rhaid iddo gofio y gellir dehongli ei ddatganiad, os caiff ei gyflwyno fel aelod o CCC Cyf., fel barn CCC Cyf. neu'r proffesiwn. Ni ddylai aelod fynegi barn CCC Cyf. heb yn gyntaf ymgynghori â'r Prif Weithredwr (neu'r Cadeirydd yn ei absenoldeb) ynghylch y mater. Rhaid iddo, felly, ymateb yn urddasol ac yn broffesiynol.

## **10. Cyffredinol**

### **10.1 Y Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol**

Rhaid i Fwrdd Cyfarwyddwyr CCC Cyf. benodi Pwyllgor Aelodaeth a Safonau Proffesiynol a chymeradwyo'i gyloch gorchwyl. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn un o gyfarwyddwyr CCC Cyf.

**10.2** Bydd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr y grym i weithredu gofynion y Cod hwn dan gyfansoddiad CCC Cyf.

### **10.3 Diwygio**

Gellir diwygio darpariaethau'r Cod hwn naill ai:

i) drwy benderfyniad gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr.

Os digwydd hyn, bydd yn rhaid i Fwrdd y Cyfarwyddwyr wedyn ymgynghori â'r aelodau ynghylch unrhyw gynnig y mae am ei wneud a neilltuo cyfnod o 28 diwrnod ar gyfer hyn. Os bydd mwyafrif yr aelodau fydd yn ymateb i'r ymgynghoriad yn cytuno â'r cynnig a wneir yna mabwysiadir y newid yn syth a chyhoeddir fersiwn ddiwygiedig o'r Cod ar wefan y Gymdeithas. Os bydd mwyafrif yr aelodau fydd yn ymateb i'r ymgynghoriad yn gwrthwynebu, caiff y

cynnig ei drafod mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol neu Gyfarfod Cyffredinol Eithriadol cyhyd ag y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig priodol.

ii) drwy benderfyniad gan fwyafrif o'r aelodau sy'n bresennol neu sy'n cael eu cynrychioli mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol neu Gyfarfod Cyffredinol Eithriadol cyhyd ag y rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig priodol.

**Dyddiad: Medi 2014**